Pan enillodd Llundain yr hawl i gynnal y Gemau Olympaidd a'r Gemau Paralympaidd yn 2012 fe wnaethom addewid y byddem yn creu gwaddol cynaliadwy i Lundain a'r DU.

Rydym wedi ymrwymo i sicrhau fod y gwaddol hwn – yr argraff y bydd Gemau 2012 yn ei wneud ar y DU – yn dechrau siapio yn awr ac yn para ymhell ar ôl 2012.

Mae llwyfannu'r Gemau wedi golygu gwahanol bethau i wahanol ddinasoedd fu'n eu cynnal – i Barcelona adfywiad oedd y prif sbardun, i Sydney roedd yn ymwneud â rhoi ei hun ar y map fel cyrchfan byd-eang, i Athens roedd yn ymwneud ag ailddiffinio ei hun fel dinas fodern Ewropeaidd.

Mae ein nod ni ar gyfer 2012 yn un gwahanol eto. Nid yn unig y byddwn yn adfywio un o'r ardaloedd mwyaf difreintiedig yn y DU ond byddwn hefyd yn ceisio lledaenu hud 2012 oddi allan i'r Parc Olympaidd fel y gall pob cymuned yn y DU deimlo'r budd o gynnal Gemau Llundain.

Mae 'gwaddol' yn golygu'r buddiannau sy'n deillio o adeiladu a chynnal y Gemau yn 2012, yn ogystal â'r holl fentrau chwaraeon, diwylliannol, cymunedol, amgylcheddol a menter ehangach a fydd yn digwydd ledled y DU o ganlyniad i'r Gemau cyn, yn ystod 2012 ac ar ôl hynny.

Dros y 12 mis diwethaf, rydym wedi bod yn cynnal trafodaethau â gweinyddiaethau datganoledig Cymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon a'r naw rhanbarth Saesneg am yr hyn y maen nhw eisiau ei gyflawni yn sgil Gemau 2012. Y gwaith hwnnw yw conglfaen y ddogfen hon, sy'n amlinellu'r gwaddol y mae Llywodraeth y DU wedi ymrwymo i'w ddarparu gyda chymorth y Teulu Olympaidd.

Ein cenhadaeth ar gyfer 2012 yw ysbrydoli pobl i gymryd rhan, rhoi cynnig ar weithgareddau newydd a newid y modd y maen nhw'n byw eu bywydau. Rydym eisiau symbylu pawb yn y DU, pobl ifanc yn arbennig, i gymryd rhan mewn gweithgareddau newydd, dysgu sgiliau newydd a chanfod cysylltiadau newydd â'r bobl o'n cwmpas, boed nhw'n byw yr ochr arall i'r stryd neu ym mhen arall y byd.

Os bydd pawb yn ymuno ac yn cymryd rhan, gallwn wneud i'r canlynol ddigwydd:

1. Gwneud y DU yn un o genhedloedd chwaraeon blaenllaw'r byd
2. Trawsnewid canol Dwyrain Llundain
3. Ysbrydoli cenhedlaeth o bobl ifanc i gymryd rhan mewn gweithgareddau gwirfoddol, diwylliannol a chorfforol yn lleol
4. Gwneud y Parc Olympaidd yn gynllun penodedig ar gyfer byw'n gynaliadwy
5. Dangos fod y DU yn lle creadigol, cynhwysol a chroesawus i fyw ynddo, i ymweld ag o, ac ar gyfer busnes

Mae'r rhain yn amcanion uchelgeisiol. Ni all y llywodraeth eu cyflawni ar ei phen ei hun – rydym angen cydbwysedd cywir rhwng unigolion, cymunedau a llywodraeth i gyrraedd y nod.

Eisoes, ym mhob Cenedl a rhanbarth, mae cymunedau'n cael eu hysbrydoli ac yn cymryd rhan, ond credwn y gall y DU fod hyd yn oed yn fwy uchelgeisiol ac yn fwy llwyddiannus. Dim ond ambell enghraifft o’r prosiectau ardderchog sydd wedi eu sefydlu yr ydym wedi cyfeirio atynt, ond o gael pawb i gydweithio does dim pen draw ar yr hyn y gallwn ei gyflawni. Dyma ein cyfle i wneud gwahaniaeth sylweddol i fywyd bob dydd drwy gyfrwng Gemau 2012. Bydd rhaglenni 2012 sy'n cyflawni’r addewidion hyn yn ymgorffori'r delfrydau Olympaidd ac yn symbol o gyflawni uchelgais ar y lefel uchaf.

Galwad i afael ynddi yw’r ddogfen hon felly – mae gennym bum mlynedd i droi'r ymrwymiadau hyn yn realiti, ond dim ond eich dychymyg, eich ymrwymiad a'ch cyfraniad chi all wneud i hyn ddigwydd.





Tessa Jowell
Gweinidog y Gemau Olympaidd

## Beth fydd yn digwydd nesaf?

Yn ddiweddarach eleni byddwn yn cyhoeddi Cynllun Gweithredu manwl yn amlinellu sut y byddwn yn cyflawni’r ymrwymiadau hyn. Yn Llundain, y Maer sy'n gyfrifol am ddarparu gwaddol cynaliadwy. Ochr yn ochr â hyn, mae pob rhanbarth Saesneg eisoes yn gweithio'n galed ar gynlluniau cyfatebol a bydd gan bob Cenedl hefyd ei strategaethau ei hun ar gyfer cyflawni'r nodau hyn a chael pobl i gymryd rhan.


### Cymryd rhan

Ewch i www.london2012.com/nrg i gael rhagor o wybodaeth am weithgareddau yn eich ardal chi a ledled y DU.

### Mynegwch eich barn

Os oes gennych chi unrhyw sylwadau ynghylch y ddogfen hon yna ewch i www.culture.gov.uk/global/ContactUs

# Pennod 1
# Byddwn yn gwneud y DU yn un o genhedloedd chwaraeon blaenllaw'r byd



Mae Gemau Llundain yn 2012 yn gyfle i ddod â chyfuniad unigryw o adnoddau llywodraeth ac ymrwymiad gan y gymuned chwaraeon a'r rhai sy'n cymryd rhan at ei gilydd i greu cenedl chwaraeon o safon wirioneddol fyd-eang.

**Byddwn yn cyflawni hyn drwy ganolbwyntio ein hegni ar dri maes:**

- **Llwyddiant elît** – ein nod yn y pen draw yw gorffen yn bedwerydd yn y tabl medalau Olympaidd ac yn gyntaf yn y tabl medalau Paralympaidd
- **Cyfranogaeth dorfol** – y Ffindir yw un o'r gwledydd mwyaf llwyddiannus yn y byd o ran cael ei phoblogaeth i gymryd rhan mewn chwaraeon. Yn Lloegr byddwn yn cyfateb eu cyfradd cynnydd o 1 y cant mewn lefelau cyfranogiad o flwyddyn i flwyddyn hyd at 2012
- **Chwaraeon ysgol** – erbyn 2010 ein huchelgais yw cynnig lleiafswm o 4 awr o chwaraeon bob wythnos i bob plentyn yn Lloegr, yn yr ysgol neu oddi allan iddi

Mae pob Cenedl yn datblygu ei chynllun ei hun o ran sut i gyflawni'r addewid hon.



Gêm rygbi merched

## Ein Cynlluniau

- **Buddsoddi £600 miliwn mewn chwaraeon perfformiad uchel** ledled y DU rhwng hyn a 2012. Bydd y buddsoddiad hwn yn cynorthwyo tua 1500 o athletwyr bob blwyddyn yn ogystal â datblygu technolegau a gwyddorau chwaraeon i'w helpu i ennill medalau aur. Cewch ragor o wybodaeth ar **www.uksport.gov.uk**
- Mae hyfforddiant yn hanfodol. Byddwn yn parhau i fuddsoddi drwy **Fframwaith Hyfforddi'r DU**, a fydd yn gwella ansawdd a swm yr hyfforddiant ymhellach ledled y wlad a chreu'r system hyfforddi orau yn y byd erbyn 2016
- Bydd llwyfannu **Gemau Ysgol y DU** yn symbylu chwaraeon ysgol cystadleuol yn y wlad hon. Dyma gystadleuaeth genedlaethol newydd o bwys sy'n fodd i bobl ifanc mwyaf talentog y DU gystadlu mewn amrywiaeth o chwaraeon

## Beth yw Gemau Ysgol y DU ?

Sefydlwyd Gemau Ysgol y DU y llynedd ar ôl i Lundain ennill yr hawl i gynnal Gemau 2012 er mwyn rhoi cyfle i dros 1000 o athletwyr ifanc talentog gystadlu mewn digwyddiad tebyg i'r hyn a gynhelir yn 2012. Bydd digwyddiad 2007 yn Coventry yn cynnwys un ar ddeg o chwaraeon, tri ohonynt i rai ag anableddau – erbyn 2011 ein bwriad yw cynnwys 15 o chwaraeon. Bydd y digwyddiad yn cael ei gynnal yn y De Orllewin yn 2008, yng Nghymru yn 2009, Tyne and Wear yn 2010 a Sheffield yn 2011

- Gweithredu dau gynllun yn Lloegr – **Cynllun Ysgoloriaeth Athletwyr Talentog a'r Brentisiaeth Uwch mewn Rhagoriaeth ym maes Chwaraeon** – i gefnogi ein hathletwyr ifanc mwyaf talentog mewn amrywiaeth o chwaraeon Olympaidd, Paralympaidd a chwaraeon eraill, tra'n eu galluogi i barhau mewn addysg bellach ac uwch, neu ennill sgiliau galwedigaethol sy'n gysylltiedig â chwaraeon

- Cynyddu nifer y **Rheolwyr Cystadlaethau** yn Lloegr i hybu ansawdd a nifer cystadlaethau lleol a rhanbarthol i blant gymryd rhan ynddynt. Bydd o leiaf 90 o Reolwyr Cystadlaethau yn eu lle erbyn diwedd 2007

## Eich Cyfleoedd

- Gwell mynediad i fwy o chwaraeon a rhai o ansawdd well, a chyfleusterau hamdden ynghanol pob cymuned er mwyn hwyluso ffordd o fyw iachach, mwy heini

- Nid yn unig y bydd treulio mwy o amser ar chwaraeon ysgol yn helpu i greu cenhedlaeth fwy ffit ac iach ond bydd hefyd yn hwb i'r hyder, yn ehangu gorwelion, ac yn agor y drws i gyfleoedd gyrfa newydd mewn gweithgareddau cysylltiedig â chwaraeon i bobl ifanc. I ddarganfod sut i fod yn fwy heini ewch i **www.sportengland.org; www.sportscotland.org.uk; www.sports-council-wales.org.uk; www.sportni.net**

## Beth sy'n digwydd yn barod?

Mae Gorllewin Canolbarth Lloegr eisoes yn gyrchfan o safon fyd-eang i ddigwyddiadau o bwys ond drwy gyfrwng Gemau 2012 gall wella'n fwy fyth. Bydd yn gwneud y gorau o'i seiliau cadarn mewn astudiaethau chwaraeon a gwyddoniaeth ym maes addysg uwch ac yn hybu digwyddiadau cysylltiedig â'r Gemau Paralympaidd, gan gynnwys cystadleuaeth Pêl-fasged Cadair Olwyn y Byd yn Birmingham.

Yn Nwyrain Canolbarth Lloegr, disgwylir y bydd Sefydliad Technoleg Chwaraeon, yn cynnwys yr adnoddau diweddaraf un ac yn costio £15 miliwn, yn agor ei ddrysau ym Mhrifysgol Loughborough yn 2007. Bydd y Sefydliad yn datblygu technoleg arloesol i gynorthwyo athletwyr elît y wlad wrth iddynt baratoi ar gyfer Gemau 2012, yn ogystal â gwella ymchwil yn y sectorau chwaraeon a hamdden yn sylweddol.

Mae Glasgow yn codi ei phroffil fel dinas chwaraeon o safon fyd-eang drwy wneud cais i gynnal Gemau Cymanwlad 2014. Byddai llwyfannu Gemau'r Gymanwlad yn creu cyfleusterau newydd a rhai wedi eu hadnewyddu yn Glasgow a'r cyffiniau; canolbwynt pendant ar gyfer datblygu chwaraeon ledled yr Alban; hwb i'r economi yn lleol a chenedlaethol; a chatalydd i wella tai, cludiant a'r amgylchedd. Mae hyn yn gydnaws ag uchelgais yr Alban i fod yn un o brif gyrchfannau'r byd i gynadleddau a digwyddiadau o bwys erbyn 2015.

# Pennod 2
# Byddwn yn trawsnewid canol Dwyrain Llundain



Bydd Gemau 2012 yn cael effaith enfawr a pharhaol ar Ddwyrain Llundain. Byddant yn creu cartrefi newydd, cyfleusterau cludiant cyhoeddus newydd, cyfleoedd busnes newydd a mannau newydd i fyw, gweithio a chwarae ynddynt. Bydd Gemau 2012 yn creu delwedd newydd gadarnhaol ar gyfer yr ardal, a fydd yn denu buddsoddiad newydd i Ddwyrain Llundain a'r Thames Gateway ar raddfa ehangach, ac yn helpu i gyflymu datblygiad ac ansawdd ei adfywiad.

Ond nid yw trawsnewid ardal yn ymwneud ag adeiladau a busnesau newydd yn unig. Mae'n ymwneud â'r bobl ac ansawdd y bywydau y maen nhw'n eu byw, a'u cynnwys yn y broses o gynllunio a siapio'r gwelliannau y bydd Gemau Llundain yn eu creu yn yr ardal. Bydd 2012 yn dod â manteision i breswylwyr a chymunedau drwy greu mwy o swyddi, hyfforddiant a chreu amgylchedd glanach, gwell ac iachach i bawb fyw ynddo.

## Ein Cynlluniau

- Trawsnewid Dwyrain Llundain drwy greu'r **Parc Olympaidd newydd**. Bydd y Parc yn darparu pum lleoliad chwaraeon o bwys (gan gynnwys y brif stadiwm, canolfan ddyfrol a chanolfan aml-chwaraeon dan do) a hwn fydd un o'r parciau trefol newydd mwyaf yn Ewrop ers 150 mlynedd. Bydd cynefinoedd a dyfrffyrdd wedi eu hadfywio oddi mewn i'r Parc yn cael eu gosod ochr yn ochr â'r safonau uchaf o gynllunio cynaliadwy ar gyfer yr adeiladau newydd

- Meithrin **cynllunio arloesol** drwy greu cystadlaethau fel y gall penseiri cymharol newydd gymryd rhan yn y broses o ddatblygu lleoliadau 2012 fel y Velopark a'r llwybr beiciau a cherdded Greenway

- Creu **cymuned newydd i fyw ac i weithio ynddi**. Bydd 9,000 o gartrefi newydd yn ardal y Parc Olympaidd ar ôl Gemau 2012, a bydd llawer ohonynt ar gael i weithwyr allweddol fel nyrsys neu athrawon

- Gwella'r **isadeiledd cludiant** yn Nwyrain Llundain, gan gynnwys rheilffyrdd, ffyrdd, pontydd, dyfrffyrdd, llwybrau troed, llwybrau beiciau a llwybrau tynnu

- Gweithio i helpu gweithwyr Prydain i gael y gorau allan o sgiliau a swyddi wrth i 2012 ddod yn nes. Nod **Employer Accord**, sy'n gynllun peilot ar hyn o bryd, yw helpu 5,000 o bobl ddi-waith yn Llundain – a mwy o gwmpas y wlad – i ddod o hyd i waith mewn amrywiaeth o fusnesau



Mae gwaith ar droed eisoes ar safle'r parc Olympaidd yn Nwyrain Llundain

## Eich Cyfleoedd

- Parc newydd unigryw y gall Llundeinwyr ac ymwelwyr ei fwynhau am flynyddoedd i ddod
- Lleoliadau chwaraeon newydd sylweddol y gall y gymuned eu defnyddio a lle y gall athletwyr elît hyfforddi
- Dadeni economaidd cyflym i Ddwyrain Llundain
- Bydd swyddi gwag ar gyfer 2012 yn cael eu harddangos yn Jobcentre Plus o'r Hydref hwn ymlaen
- Targed o 4,500 o brentisiaethau adeiladwaith ar brosiectau yn Llundain a'r De Ddwyrain erbyn 2012. Am ragor o wybodaeth ewch i **www.constructionskills.net**

## Beth sy'n digwydd yn barod?

Mae menter broceriaeth swyddi newydd o'r enw BOOST yn cynorthwyo pobl leol a busnesau i gael gwaith, datblygu sgiliau a hwyluso cyfleoedd cadwyni cyflenwi lleol. Mae hyn eisoes yn gweithredu ar yr ymrwymiad i helpu Dwyrain Llundain i elwa o 2012. Am fwy o wybodaeth ewch i www.boost-opportunities.org.uk

Mae Dwyrain Lloegr wedi gosod nod iddo'i hun o ennill cytundebau cysylltiedig â Gemau 2012 sy'n werth £100 miliwn i'r economi – £50 miliwn o'r diwydiant adeiladu a'r gweddill o sectorau creadigol a chludiant.




Argraff arlunydd o'r Ganolfan Ddyfrol newydd

# Pennod 3
# Byddwn yn ysbrydoli cenhedlaeth newydd o bobl ifanc i gymryd rhan mewn gweithgareddau gwirfoddol, diwylliannol a chorfforol



Mae gwaith gwirfoddol yn y gymuned, canolfannau celfyddydol a chlybiau chwaraeon i gyd yn darparu gweithgareddau i bobl ifanc wneud ffrindiau newydd, dysgu sgiliau newydd a rhoi hwb i'w hunan hyder. Mae cael pobl ifanc i gymryd rhan mewn gweithgareddau cymunedol o fantais i ni i gyd, waeth beth yw ein hoed. Bydd 2012 yn creu llu o gyfleoedd o'r fath. Rydym eisiau defnyddio Gemau Llundain i ysbrydoli mwy o bobl ifanc i gymryd rhan, gwneud yn fawr o'r manteision hyn, ac ymwneud mwy â'r cymunedau lle maen nhw'n byw.

Mae gan ein sectorau gwirfoddol, diwylliannol, creadigol a chwaraeon gyfle unwaith mewn oes i ddenu sylw cenhedlaeth newydd gyfan o bobl ifanc, nid fel cynulleidfaoedd yn unig ond fel cyfranogwyr gweithredol.

## Ein Cynlluniau

- Sefydlu **Olympiad Diwylliannol** i'w gynnal bob pedair blynedd – y rhaglen ddiwylliannol fwyaf uchelgeisiol a helaeth yn hanes y Gemau modern. Gan ddechrau yn 2008, bydd yn dod ag amrediad enfawr o weithgareddau diwylliannol a chreadigol i fannau ar draws y DU, gan roi blas o'r pethau gorau yn niwylliannau Prydain a'r byd i bobl ifanc, a chyfleoedd newydd iddynt gymryd rhan

- Bydd y **Ras Gyfnewid â Ffaglau 2012** yn ymweld â threfi a dinasoedd ledled y DU. Bydd hyn yn gyfle gwych i bobl ifanc gymryd rhan yn y gweithgareddau fydd yn arwain at Gemau 2012 a'r ymarferiad mwyaf o ran ymrwymiad cymunedol

- Creu cenhedlaeth weithredol drwy gyfrwng amrywiaeth o gyfleoedd gwirfoddoli heb eu hail i bawb o gwmpas y DU, gan gynnwys pobl ifanc cyn, yn ystod ac ar ôl Gemau 2012. Byddwn angen tua 70,000 o wirfoddolwyr yn ystod cyfnod y Gemau, a bydd **Rhaglenni Cyn-Wirfoddoli** ledled y DU yn rhoi'r sgiliau angenrheidiol i bobl heb gymwysterau i wirfoddoli yn 2012 a'u helpu i gael lleoliad gwirfoddoli, swydd neu hyfforddiant pellach

- Creu **Ymddiriedolaeth Etifeddiaeth**. Bydd hyn yn rhoi £40 miliwn o grantiau i brosiectau cymunedol fydd yn dathlu rhagoriaeth ddiwylliannol a chwaraeon ledled y DU, gan roi pwyslais arbennig ar ddenu pobl ifanc a chymunedau amrywiol

- Recriwtio **Llysgenhadon Ifanc** o Bartneriaethau Chwaraeon Ysgol ledled Lloegr i weithio â phobl ifanc eraill mewn ffyrdd amrywiol i'w hysgogi i fod yn rhan o Gemau Llundain

- Creu **Rhaglen Addysg Llundain 2012**. Ymhlith y pynciau bydd menter, daearyddiaeth, dinasyddiaeth, ieithoedd tramor a gwyddoniaeth. Bydd y rhaglen yn cael ei chynnal mewn ysgolion a cholegau, a'i chyflwyno gan ddarparwyr addysg eraill, a bydd yn denu plant a phobl ifanc i fod yn rhan o Gemau 2012 ac yn eu hysbrydoli drwy gyfrwng y gwerthoedd Olympaidd a Pharalympaidd

- Rhoi'r cyfle i'r rhai sy'n gadael ysgol o'r pum bwrdeistref o gwmpas y Parc Olympaidd **i weithio i Bwyllgor Trefnu Gemau Olympaidd a Gemau Paralympaidd Llundain (*London Organising Committee of the Olympic and Paralympic Games – LOCOG*)**, gydol yr adeg hyd at 2012 o bosibl, ac ennill NVQ Lefel 2 a 3 mewn Gweinyddiaeth Busnes. Ewch i **www.london2012.com** i gael gwybod sut i wneud cais

- Annog 20,000 o bobl ifanc i fod yn entrepreneuraidd a chreadigol. Bydd **Enterprise Insight** yn cynnal gweithgareddau wedi eu hysbrydoli gan 2012 er mwyn meithrin cenhedlaeth newydd o entrepreneuriaid. Ewch i **www.starttalkingideas.org** i gael rhagor o wybodaeth

- Annog pawb **i gynyddu eu gweithgarwch corfforol** – drwy gynlluniau peilot newydd mewn Practisiau Meddygon Teulu sy'n cynorthwyo gweithgareddau corfforol sydd ar gael yn barod, er enghraifft, a chyd-gysylltwyr newydd ym mhob rhanbarth i hybu gweithgareddau corfforol. Bydd y strwythurau hyn yn helpu i ddarparu amrediad ehangach o fentrau gan gynnwys Pecyn Offer Gweithgareddau mewn Ysgolion (*Activity in Schools Toolkit*), Rhaglen Mesurydd Camau i Ysgolion (*School Pedometer Programme*) a'r Rhaglen Well@Work

## Eich Cyfleoedd

- Cymryd rhan, ychwanegu eich barn, tynnu sylw at eich rhan chi o'r gymuned, dod yn rhan o genhedlaeth newydd 2012

- Dod yn wirfoddolwr 2012 ar gyfer eich cymuned. Mae dros 140,000 o bobl wedi mynegi diddordeb yn barod. I gael rhagor o wybodaeth am wirfoddoli ewch i **www.do-it.org.uk; www.volunteerscotland.org.uk; www.volunteering-wales.net; i www.volunteering-ni.org**

- Mae adnoddau addysgol ar gael i athrawon, rhieni a myfyrwyr drwy 'On Your Marks'. Edrychwch ar **www.london2012.com/onyourmarks** i gael yr wybodaeth am yr offer newydd diweddaraf

## Beth sy'n digwydd yn barod?

Mae'r De Ddwyrain yn datblygu rhaglen Creu, Cystadlu neu Gydweithio (*Create, Compete or Collaborate*). Drwy hyn, bydd pobl ifanc a anwyd ar ôl 1983 yn gweithio mewn partneriaeth â phobl ifanc mewn gwledydd sy'n cystadlu ar brosiect arbennig. Mae'r ardal hefyd yn bwriadu adeiladu ar lwyddiant ei Gŵyl Sgiliau bresennol drwy ddatblygu sgiliau elît pobl ifanc a'u hannog i gystadlu yng nghystadleuaeth ryngwladol WorldSkills Llundain 2011.

Yn Llundain, mae cynlluniau peilot y Rhaglen Cyn-Wirfoddoli eisoes ar waith mewn11 bwrdeistref. Gan ymwneud â 550 o gyfranogwyr, a thargedu pobl dan anfantais, gan gynnwys lleiafrifoedd ethnig a phobl ag anableddau, mae'n darparu sgiliau sylfaenol mewn gwasanaeth i gwsmeriaid, cymorth cyntaf ac iechyd a diogelwch. Mae rhai sydd wedi cwblhau'r rhaglen eisoes wedi mynd yn eu blaenau i dderbyn mwy o hyfforddiant, i weithio neu wedi cael cyfle i wirfoddoli – a'r cyfan oherwydd Gemau 2012.

Mae'r Gogledd Orllewin yn gweithio â LOCOG i ddefnyddio blwyddyn Lerpwl fel Prifddinas Diwylliant Ewrop yn 2008 fel rhan allweddol o lansiad Olympiad Diwylliannol Llundain 2012. Bydd hefyd yn adeiladu ar lwyddiant Gemau Cymanwlad 2002 drwy gryfhau ei rwydwaith mewnol o wirfoddolwyr a ffurfio sefydliad gwirfoddoli chwaraeon y Gogledd Orllewin gan ddarparu cyfleoedd sy'n gysylltiedig â'i raglen prif ddigwyddiadau helaeth.

# Pennod 4

# Byddwn yn gwneud y Parc Olympaidd yn gynllun penodedig ar gyfer byw'n gynaliadwy



Bydd paratoadau ar gyfer 2012 yn trawsnewid un o ardaloedd mwyaf difreintiedig y DU yn gymuned newydd, â chymysgedd o gartrefi, mannau gwaith a pharcdir, gan weithredu ar sail safonau amgylcheddol uchel. Bydd yn gosod y safon ar gyfer cynlluniau yn y dyfodol ac yn arddangos gallu ac uchelgais y DU.

Byddwn yn defnyddio gwersi a ddysgwyd o Gemau 2012 wrth gynllunio digwyddiadau o bwys yn y dyfodol a darparu datblygiadau yn y dyfodol, fel ardal ehangach Thames Gateway yn Nwyrain Llundain a datblygiadau carbon isel a di-garbon arfaethedig yn y DU a thu hwnt.

## Ein Cynlluniau

- Gweithio tuag at **'Gemau Un Blaned'**. Bydd Llundain yn cynnal Gemau carbon isel, dŵr-effeithlon ac ni fydd unrhyw wastraff a gynhyrchir yn ystod y Gemau yn mynd i gladdfa sbwriel. Bydd hyn yn gwella'r amgylchedd a'r bywyd gwyllt lleol ac yn gosod safonau newydd yma a thros y môr ar gyfer digwyddiadau o bwys a datblygu trefol

- Adeiladu **pentref Olympaidd cynaliadwy o ran yr amgylchedd** all gynnig patrymlun cynaliadwy ar gyfer datblygiadau trefol yn y dyfodol mewn lleoliadau eraill

- **Defnyddio ysbrydoliaeth 2012** i annog pobl i fyw bywydau iachach, sy'n ymwybodol o'r amgylchedd a chefnogi'r delfrydau Olympaidd

- Arddangos y technegau diweddaraf un i **greu ynni adnewyddadwy** ar gyfer y Parc Olympaidd

- Creu un o'r mannau newydd mwyaf o barcdir agored o safon yn Ewrop – gwella bioamrywiaeth a dangos gwerth mannau gwyrdd i **wella ansawdd bywyd**



Athro gyda dosbarth,
Coedwig yn y Gwanwyn,
Epping Forest

- **Adfywio dyfrffyrdd Dwyrain Llundain** – darparu cynefinoedd ar gyfer pysgod, adar ac anifeiliaid eraill yn ogystal ag ar gyfer hamdden, gweithgareddau corfforol a chludiant. Dros amser, trawsnewid rhai o'r afonydd a lygrwyd waethaf yn gynefinoedd o safon y gellir eu mwynhau

- Creu **rhaglen i wirfoddolwyr** sy'n creu brwdfrydedd mewn pobl i gymryd rhan weithredol yn y broses o wella eu hamgylchedd lleol

## Eich Cyfleoedd

- Cyfle i bob rhanbarth arddangos Gemau 2012 a'r modd y mae'r digwyddiad wedi helpu i blannu'r ymwybyddiaeth o faterion amgylcheddol yn eu rhanbarthau

- Dinas gynaliadwy, wych i fyw ynddi ac i ymweld â hi ar ôl i Gemau Llundain ddod i ben – un sy'n cael ei chydnabod yn rhyngwladol fel un sy'n arwain yn y maes cynaladwyaeth


- Cyfle i fusnesau yn y DU arddangos a dysgu o dechnegau adeiladu amgylcheddol a rheoli newydd, cyn, yn ystod ac ar ôl 2012

## Beth sy'n digwydd yn barod?

Mae gan Ardal y De Ddwyrain sector technolegau amgylcheddol ffyniannus ac arloesol all helpu i gyflawni'r ymrwymiad i Gemau carbon isel. Mae cynlluniau ar y gweill i wella eu rhwydwaith cludiant ac isadeiledd i helpu i ddarparu'r 'Gemau cludiant cyhoeddus' a chreu etifeddiaeth cludiant ar gyfer yr ardal gan gynnwys darparu cyfleusterau parcio a theithio allweddol sy'n gwella mynediad i Dorney Lake.

Yn y Gogledd Ddwyrain, mae cwmnïau ynni adnewyddadwy a rheoli gwastraff yn cael eu hannog i fanteisio ar gyfleoedd cytundebau sy'n gysylltiedig â 2012; mae datblygiadau cyfleusterau chwaraeon allweddol yn cael eu cyfuno â'u rhaglenni adfywio trefol; ac y mae twristiaeth gynaliadwy yn amgylcheddol yn cael ei datblygu.

# Pennod 5
# Byddwn yn dangos fod y DU yn lle creadigol, cynhwysol a chroesawus i fyw ynddo, i ymweld ag o, ac ar gyfer busnes



Mae cynnal Gemau 2012 yn dangos y DU i gynulleidfa fyd-eang. Gall cael ein harddangos yn rhyngwladol fod yn fanteisiol i'n busnesau, ein henw da a'n balchder cenedlaethol.

Rydym eisiau defnyddio'r cyfleoedd busnes sy'n deillio o adeiladu'r Parc, llwyfannu Gemau 2012 a'r Olympiad Diwylliannol, a chroesawu mwy o ymwelwyr, i greu cwmnïau mwy abl ac arloesol yn y DU. Ond dylai'r cyfle unigryw hwn i arddangos yr hyn sydd gennym helpu hefyd i gynyddu buddsoddiad o'r tu allan yn ogystal â gallu allforio cwmnïau Prydain.

Mae economi cryf yn rhywbeth y gallwn i gyd fod yn falch ohono. Ond mae'r balchder sy'n deillio o gynnal Gemau 2012 yn ehangach na hynny. Rydym eisiau tynnu sylw at statws Llundain fel dinas greadigol, amrywiol a chynaliadwy a dangos y diwylliant a'r dreftadaeth a greodd y DU fel y mae heddiw i filiynau o ymwelwyr newydd.

## Ein Cynlluniau

- Cynyddu **manteision twristiaeth** tymor hir a ddaw yn sgil Gemau 2012 ledled y DU. Mae datblygu a phlannu'r sgiliau cywir yn awr a thu hwnt i 2012 yn rhan allweddol o hyn. Er enghraifft, bydd **Pasbort Sgiliau'r DU** yn cael ei ddatblygu fel canllaw i gymwysterau, ariannu, hyfforddi a datblygu, a bydd o fantais i gyflogwyr a gweithwyr ledled y diwydiant. I gael rhagor o wybodaeth ewch i **www.people1st.co.uk**

- Lledaenu **rhaglen ddatblygu ryngwladol** i hybu rhagoriaeth mewn chwaraeon a chyfranogiad, yn arbennig mewn gwledydd sy'n datblygu. Erbyn y bydd Gemau 2012 wedi agor, ein gobaith yw y bydd hyd at 20 o wledydd wedi cael budd o gynlluniau partneriaeth, gan gynnwys ysgoloriaethau hyfforddi ac athletwyr, hyfforddiant sgiliau i athrawon Addysg Gorfforol neu gynlluniau datblygiad cymdeithasol oddi mewn i'r wlad

- Creu **Rhwydwaith Cyfleoedd Busnes (B*usiness Opportunities Network – BON*)** – gwasanaethau broceriaeth ar-lein i helpu cwmnïau ledled y DU i gael gwybodaeth am gytundebau'n gysylltiedig â 2012 a chyfleoedd busnes eraill a fydd yn codi. Nid yn unig y bydd BON yn helpu i greu partneriaethau newydd yn y sector fusnes, ond bydd hefyd yn rhoi sgiliau a chysylltiadau iddynt a fydd yn eu galluogi i gynnig am fwy o waith ar ôl Gemau 2012. Cofrestrwch i dderbyn rhybuddion e-bost ynghylch y newyddion busnes diweddaraf am Gemau 2012 ar **www.london2012.com**



Plant yn chwarae offerynnau cerddorol

- Cefnogi cwmnïau nad ydynt yn ennill cytundebau 2012 drwy **Cyswllt Busnes** (a sefydliadau cyfatebol yng Nghymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon) i helpu i wella eu perfformiad ac ennill cytundebau eraill. I gael rhagor o wybodaeth ewch i **www.businesslink.gov.uk**

- **Cynyddu buddsoddiad o'r tu allan** gan fuddsoddwyr tramor uchel eu parch: byddwn yn manteisio ar statws cynyddol ryngwladol y DU i ddenu buddsoddiad tramor seiliedig ar wybodaeth ac o werth sylweddol i'r DU ac i annog buddsoddwyr presennol i dyfu. I gael rhagor o wybodaeth ewch i **www.uktradeinvest.gov.uk**

- Creu llu o weithgareddau cymunedol yng Nghenhedloedd a rhanbarthau'r DU. O'r **Olympiad Diwylliannol** i'r **Ras Gyfnewid Ffaglau**, byddwn yn sicrhau fod pawb yn cael y cyfle i ddod ynghyd yn y digwyddiad hwn ledled y DU. Bydd **Safleoedd Byw** yn cael eu hadeiladu mewn dinasoedd o gwmpas y DU – sgriniau teledu mawr lle y gall pobl ddod at ei gilydd mewn mannau cyhoeddus a gwylio digwyddiadau diwylliannol a chwaraeon cyn, yn ystod ac ar ôl 2012

- Anelu at gynnal dros **100 pencampwriaeth o bwys** yn ystod y cyfnod yn arwain at 2012, gan gynnwys 28 Pencampwriaeth Byd a 27 Pencampwriaeth Ewropeaidd, gan roi hwb i broffil y Cenhedloedd a'r rhanbarthau o gwmpas y DU

## Eich Cyfleoedd

- Cyfle i ddweud eich dweud a chymryd rhan mewn gwyliau celfyddydol a diwylliannol newydd fydd yn cael eu cynnal ledled y DU fel rhan o'r Olympiad Diwylliannol rhwng 2008 and 2012. Ewch i **www.london2012.com com** i gael rhagor o wybodaeth

- Cyfleoedd i bobl ifanc gymryd rhan mewn rhaglenni cyfnewid chwaraeon a diwylliannol, fel rhaglen estynedig Dreams + Teams y Cyngor Prydeinig a'r Ymddiriedolaeth Chwaraeon Ieuenctid. Ewch i **www.britishcouncil.org/dreams** i gael rhagor o wybodaeth

- Gall pob Cenedl a rhanbarth elwa'n economaidd o'r cynnydd sylweddol mewn twristiaeth, ac amcangyfrifir y bydd manteision ariannol o rhwng £1.4 biliwn a £2 biliwn. Mae'n debyg y bydd 'difidend Gemau' wedi 2012 a mwy o ymwelwyr yn gyffredinol yn ymweld â'r DU

- Mwy o fuddsoddi o'r tu allan, mwy o gyfleoedd busnes a gwell cymorth i fusnesau sy'n cynyddu swyddi a lles

## Beth sy'n digwydd yn barod?

Mae Swydd Efrog a Humber yn defnyddio Gemau 2012 i'w helpu i greu newid sylweddol yn eu dyheadau chwaraeon a diwylliannol. Fel rhan o hyn mae'r rhanbarth yn cynnal Seremoni Wobrwyo Ryngwladol Academi Ffilm India yn 2007. Bwriad Swydd Efrog a Humber yw denu mwy o ddigwyddiadau rhyngwladol o bwys i'r ardal ac ymestyn eu croeso i'r byd.

Mae Gogledd Iwerddon yn gwneud ymdrech weithredol i ddenu gwledydd a chwaraeon i ddefnyddio ei chyfleusterau chwaraeon wedi eu huwchraddio fel gwersylloedd hyfforddi cyn y Gemau. Drwy Fwrdd Croeso Gogledd Iwerddon bydd yn cynyddu cyfleoedd i arddangos ei hatyniadau niferus i ymwelwyr.

Mae Cymru wedi nodi pa rai o'i sectorau all elwa fwyaf o Gemau 2012 ac y mae'n gweithio i ddefnyddio'r cyfle i'w hybu drwy ddeunyddiau marchnata a phecynnau sgiliau arbennig. Bydd sectorau fel nwyddau a gwasanaethau amgylcheddol, hamdden a thwristiaeth a'r amgylchedd adeiledig i gyd yn elwa o hyn.

Mae'r De Orllewin yn anfon grŵp o lysgenhadon diwylliannol ifanc i Tsieina yn ddiweddarach eleni i sefydlu cysylltiadau yn Beijing a Qingdao (lleoliad y digwyddiadau hwylio Olympaidd yn 2008).



Y Pentref Olympaidd

## Y Teulu Olympaidd

Y Bwrdd Olympaidd:
*Yn gyfrifol am oruchwylio'r gwaith o ddarparu Gemau 2012.*
Tessa Jowell, Gweinidog y Gemau Olympaidd, yr Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon (*Department for Culture, Media and Sport – DCMS*)
Ken Livingstone, Maer Llundain, Awdurdod Llundain Fawr (*Greater London Authority – GLA*)
Colin Moynihan, Cadeirydd, Cymdeithas Olympaidd Prydain (*British Olympic Association – BOA*)
Sebastian Coe, Cadeirydd, Pwyllgor Trefnu Gemau Olympaidd a Gemau Paralympaidd Llundain (*London Organising Committee of the Olympic Games and Paralympic Games – LOCOG*)

Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon (*Department for Culture, Media and Sport – DCMS*)
*Prif adran y Llywodraeth â chyfrifoldeb am y Gemau Olympaidd a'r Gemau Paralympaidd.*
www.culture.gov.uk

Cymdeithas Olympaidd Prydain (*British Olympic Association – BOA*)
*Yn gyfrifol am ddewis, arwain a pharatoi athletwyr gorau'r genedl ar gyfer y Gemau Olympaidd a Gemau Olympaidd y Gaeaf.*
www.olympics.org.uk

Cymdeithas Baralympaidd Prydain (*British Paralympic Association – BPA*)
*Yn gyfrifol am ddewis, paratoi, cofrestru, ariannu a rheoli timau Prydain yn y Gemau Paralympaidd a Gemau Paralympaidd y Gaeaf.*
www.paralympics.org.uk

Awdurdod Llundain Fawr (*Greater London Authority – GLA*)
*Awdurdod strategol llywodraeth Llundain yn atebol i Faer Llundain â chyfrifoldeb strategol am waddol y Gemau i Lundeinwyr ac adfywiad cymunedau Dwyrain Llundain a'u hamgylchedd*
www.london.gov.uk

Pwyllgor Trefnu Gemau Olympaidd a Gemau Paralympaidd Llundain (*London Organising Committee of the Olympic Games & Paralympic Games – LOCOG*)
*Yn gyfrifol am baratoi a llwyfannu Gemau 2012.*
www. london2012.com

Awdurdod Gweithredu'r Gemau Olympaidd (*Olympic Delivery Authority – ODA*)
*Corff cyhoeddus sy'n gyfrifol am sicrhau darparu lleoliadau newydd ac isadeiledd y Gemau.*
www.london2012.com

Y Pum Bwrdeistref Croesawu
*Yn gyfrifol am sicrhau cyfleoedd a manteision gwaddol Gemau 2012 i'r cymunedau cyfagos yn Nwyrain a De Ddwyrain Llundain.*
Arweinwyr a Meiri Bwrdeistrefi Llundain – Greenwich, Hackney, Newham, Tower Hamlets a Waltham Forest.

Lluniau:
Nick David, Alan Edwards, LOCOG, Britainonview, Geoff Wilson, Britainonview/Simon Kreitem, Woodfall Wild Images/Alamy, Arcaid

Gallwn hefyd ddarparu dogfennau i ateb
gofynion penodol pobl ag anableddau.
Ffoniwch 020 7211 6200 neu e-bostiwch
enquiries@culture.gov.uk
Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon
Argraffwyd yn y DU ar bapur wedi'i ailgylchu
©Hawlfraint y Goron
Mehefin 2007. PP1020. 10 mil o gopïau

department for
**culture, media
and sport**

2-4 Cockspur Street
London SW1Y 5DH
www.culture.gov.uk